# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 5

DARPARIAETH ATODOL

### PENNOD 1

CREDYDAU TRETH

**54 Pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer credydau treth**

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer amgylchiadau pan fo person i fod â hawlogaeth i gredyd treth mewn cysylltiad â'r dreth.

(2) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth (ymysg pethau eraill)—

(a) ynghylch amodau y mae hawlogaeth i gredyd i fod yn ddarostyngedig iddynt;

(b) ynghylch swm credyd;

(c) ynghylch y ffordd y mae person sydd â hawlogaeth i gredyd i gael budd ohono (er enghraifft, darpariaeth i dynnu didyniadau o'r dreth a fyddai fel arall i'w chodi ar berson, ac i daliadau gael eu rhoi i berson, mewn amgylchiadau a ragnodir yn y rheoliadau);

(d) ynghylch y weithdrefn ar gyfer hawlio credyd (er enghraifft, darpariaeth ynghylch gwybodaeth sydd i'w darparu gan hawlydd i ategu hawliad);

(e) ynghylch amodau y mae unrhyw fudd mewn cysylltiad â chredyd i fod yn ddarostyngedig iddynt, neu y caiff fod yn ddarostyngedig iddynt, (er enghraifft, amodau sy'n gwneud taliadau neu ad-daliadau i ACC yn ofynnol, o dan amgylchiadau a ragnodir yn y rheoliadau);

(f) ynghylch amgylchiadau y caiff ACC atal credyd oddi tanynt;

(g) sy'n caniatáu i ACC ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth a dogfennau gael eu darparu, ac yn caniatáu i ACC archwilio mangreoedd, naill ai mewn cysylltiad

â gofyniad a osodir o dan y rheoliadau, neu fel arall at ddiben cadarnhau sefyllfa person o ran hawlogaeth i gredyd, neu o ran gofyniad i roi ad-daliad i ACC o dan y rheoliadau;

(h) ynghylch dyletswyddau i gadw cofnodion a'u storio'n ddiogel;

(i) ar gyfer cosbau mewn cysylltiad ag achosion o fethu â chydymffurfio â gofynion a osodir gan y rheoliadau neu oddi tanynt;

(j) ynghylch adolygiadau ac apelau.

(3) Caiff y rheoliadau ddiwygio neu gymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â'r dreth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 54 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 54 mewn grym ar 18.10.2017 gan O.S. 2017/955, **ergl. 2(f)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, PENNOD 1.